Cafcass Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cafcass Cymru Adroddiad Blynyddol 2022-2023



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair gan Nigel Brown, Prif Weithredwr Cafcass Cymru | 3 |
| Ffigurau Allweddol | 4 |
| Dangosyddion Perfformiad Allweddol | 5 |
| Ein Cynllun Strategol | 6 |
| Ein Gwasanaeth | 7 |
| Ein Staff | 11 |
| Ein Rhanddeiliaid | 14 |
| Beth nesaf? | 17 |
| Rhestr Termau | 17 |






© Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG48586, ISBN digidol 978-1-83504-788-0
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Rhagair gan Nigel Brown, Prif Weithredwr Cafcass Cymru

**Bu hon yn flwyddyn o ymgyfarwyddo â ffyrdd newydd o weithio ar ôl diwedd y cyfyngiadau sylweddol a osodwyd arnom yn ystod y pandemig. Mae'r ffordd rydym yn gweithio erbyn hyn wedi cael ei llywio gan adborth gan ein staff a'n rhanddeiliaid ac mae'n adeiladu ar ddull gweithredu "Gweithio'n Glyfar" Llywodraeth Cymru.**

Darparu gwasanaeth cyson o safon uchel i blant a'u teuluoedd yw ein prif flaenoriaeth ac mae eu hadborth wedi ein helpu i lywio'r ffordd rydym yn gweithredu. Un enghraifft o hyn yw'r dull cyfun a fabwysiadwyd gennym o ran cyfarfod â phlant a'u teuluoedd lle rydym yn trafod y dewis o gyfarfod wyneb yn wyneb neu gyfarfod o bell â nhw. Mae hyn yn golygu ein bod yn gallu gweithio'n fwy effeithlon ac effeithiol nag o'r blaen.


Yn ystod mis Mai a mis Mehefin 2022, cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru wiriad sicrwydd er mwyn adolygu ansawdd ac effeithiolrwydd prif swyddogaethau Cafcass Cymru, sef rhoi cyngor arbenigol i'r llysoedd a diogelu a chefnogi plant a'u teuluoedd. Canolbwyntiodd y gwiriad sicrwydd yn benodol ar gyfraith teulu gyhoeddus a siaradodd yr arolygwyr â phobl ifanc, teuluoedd, rhanddeiliaid, a'n staff yn ogystal ag adolygu ein hymwneud mewn achosion gerbron y llys teulu. Mae'n bleser gennyf nodi bod yr arolygwyr wedi dod i'r casgliad, er bod y staff yn wynebu pwysau sylweddol a chynyddol, fod ansawdd ein gwaith o safon gyson dda, ac na welwyd unrhyw feysydd a oedd yn achos pryder mawr.

Fel rhan o'r System Cyfiawnder Teuluol ehangach yng Nghymru, gwnaethom barhau i chwarae rôl allweddol i sbarduno diwygiadau a gwelliant. Y flwyddyn hon, gwnaethom chwarae rhan sylweddol yn y gwaith o brofi, dadansoddi a llywio nifer o brosiectau:

- Mae'r Cynllun Peilot Braenaru yn y gogledd wedi bod yn weithredol ers mis Chwefror 2022 ac mae'r adborth cychwynnol gan deuluoedd a gweithwyr proffesiynol yn galonogol iawn. Bwriedir i'r model wella trefniadau diogelu i'r rhai sydd wedi goroesi cam-drin domestig; cryfhau llais plant drwy eu cynnwys ar gam llawer cynharach yn ystod achos; ac, yn y pen draw, sicrhau canlyniad mwy amserol i blant a'u teuluoedd. Mae'r canfyddiadau cychwynnol yn gadarnhaol iawn, ac edrychwn ymlaen at weithio gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wrth iddi gynnal gwerthusiad llawn o'r cynllun peilot.
- Gwnaethom benodi intern PhD i ymgymryd â phrosiect sydd â'r nod o gael cipolwg ar brofiadau plant a phobl ifanc sy'n rhan o Gynllun Peilot Braenaru Gogledd Cymru. Caiff plant a phobl ifanc eu cyfweld er mwyn ystyried eu profiad o fod yn rhan o'r cynllun peilot. Nod yr astudiaeth yw adeiladu ar ymchwil flaenorol, a ganfu fod plant a phobl ifanc sy'n rhan o achosion preifat yn aml yn teimlo nad ydynt yn cael fawr ddim cyfle i fynegi barn am benderfyniadau a wneir yn eu cylch, ac mai safbwyntiau rhieni sy'n cael y sylw mwyaf fel arfer.
- Gwnaethom groesawu'r cyfleoedd a gynigiwyd i ni o dan Gyfarwyddyd Ymarfer 36Y (ZE erbyn hyn) o ran datrys achos ar gam cynnar o dan gyfraith breifat. Yn ddi-os, mae'r ffyrdd newydd o weithio yn sicrhau canlyniadau cynharach i blant a'u teuluoedd mewn achosion cyfraith breifat ac roeddent hefyd yn fodd i ni ad-drefnu ein hadnoddau i roi gwasanaeth mwy ymatebol ym mhob un o'n meysydd gweithredu.
- Ail-lansiodd Llywydd yr Is-adran Teuluoedd yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus ym mis Ionawr 2023 mewn ymateb i hyd cynyddol achosion cyfraith gyhoeddus. Rwy'n croesawu'r penderfyniad i ail-lansio'r Amlinelliad yn fawr, ac yn cydnabod bod gan Cafcass Cymru, ochr yn ochr â phob partner yn y System Cyfiawnder Teuluol, rôl allweddol i'w chwarae i roi'r canllawiau statudol ar waith. Gwnaethom ymgysylltu'n helaeth â'n staff ynglŷn ag ail-lansio'r Amlinelliad a byddwn yn adolygu ein gwaith yn ddiweddarach yn ystod y flwyddyn er mwyn deall sut mae ein hymarfer yn cyfrannu at sicrhau canlyniadau mwy amserol i blant yn unol â chanllawiau statudol yr Amlinelliad.

Wrth i ni ddatblygu yn ystod ein cam nesaf o adfer a diwygio, bydd angen i ni gynnal ein ffocws ar chwarae ein rhan i leihau oedi i blant sy'n rhan o achosion teuluol a sicrhau bod eu llais a'u hawliau yn cael lle blaenllaw yn ein hymarfer. Rwy'n falch o'n gweithlu dynamig a phroffesiynol ac yn ei edmygu. Mae'n parhau i ymaddasu, gan dderbyn y newidiadau lu a brofwyd gennym dros y tair blynedd diwethaf, ac yn parhau i ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaeth diogel sy'n canolbwyntio ar y plentyn i'r plant a'r bobl ifanc hynny sy'n rhan o achosion yn y llysoedd teulu yng Nghymru.

# Ffigurau Allweddol



Y flwyddyn hon, gwnaethom weithio gyda chyfanswm o **11,226** o blant.

Cawsom **1,458** o geisiadau cyfraith gyhoeddus.

O blith y rhain, roedd **797** yn geisiadau Adran 31 (gofal neu oruchwylio).
Mae data a gasglwyd o'n ffurflenni gwybodaeth am Gau Achosion yn nodi bod **63%** o gynlluniau gofal achosion (rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2022) wedi cael eu diwygio o ganlyniad i'n mewnbwn.

Roeddem yn rhan o **549** o Apwyntiadau Datrys Anghydfod Gwrandawiad Cyntaf (FHDRA):


Er bod hyn yn llai o gymharu â blynyddoedd blaenorol, cafodd ein hymwneud yn y Cynllun Peilot Braenaru a mesur dros dro PD36Y effaith sylweddol ar faint o lysoedd FHDRA sy'n cael eu cynnal.

Y flwyddyn hon, gwnaethom ddatrys **33%** o faterion ar gam FHDRA, sy'n ganran fwy o gymharu â'r ddwy flwyddyn flaenorol, sy'n awgrymu mai drwy drefnu i deuluoedd lle nad oes unrhyw faterion diogelu yn unig gael FHDRA y mae'r broses newydd yn gweithio'n fwy effeithiol.

Llwyddwyd i ddatrys **183** o achosion ar gam FHDRA yn ystod y gwrandawiad cyntaf hwnnw, gan olygu na fu'n rhaid i blant barhau i fod yn rhan o unrhyw weithrediadau pellach yn y llys ac y cytunwyd bod trefniadau ar eu cyfer yn ddiogel, yn addas ac er budd pennaf y plentyn neu'r plant.

Gwnaethom gyflwyno **999** o adroddiadau Dadansoddiad o'r Effaith ar Blant a **287** o atodiadau i'r adroddiadau hyn.

Yn y gogledd, lle mae'r Cynllun Peilot Braenaru newydd ddechrau ar ei ail flwyddyn, gwnaethom baratoi cyfanswm o **633** Adroddiadau Effaith ar Blant yn ystod y flwyddyn gyntaf, gyda **561** o'r rhain yn adroddiadau rhan 1 (a rhai yn atodiadau), a **72** ohonynt yn arwain at adroddiadau rhan 2 llawnach.



# Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPAau)

Unwaith eto, gwnaethom barhau i gyrraedd safon uchel o ran ein DPAau. Dyma'r dangosyddion sy'n dangos ein bod yn cyflawni'r nodau a bennwyd gennym:

**Dyrannu ceisiadau adran s31 mewn materion cyfraith gyhoeddus o fewn dau ddiwrnod gwaith:**

**92.26%** – er bod y ganran hon ychydig yn is na'r flwyddyn flaenorol oherwydd pwysau ar adnoddau, roeddem wedi gallu sicrhau bod pob achos wedi cael ei ddyrannu.

**Dyrannu ceisiadau Dadansoddiad o'r Effaith ar Blant/adran 7 mewn achosion cyfraith breifat o fewn pum diwrnod gwaith:**

**98.41%** – mae'r ganran hon yn rhagori ar ein targed o **95%** ac fel gyda materion cyfraith gyhoeddus adran 31, caiff y mwyafrif o'r ceisiadau hyn eu dyrannu ar y diwrnod y dônt i law.

**Ffeilio ein Hasesiadau o'r Effaith ar Blant/ adroddiadau cyfraith breifat adran 7 ar ddyddiad ffeilio'r llys neu cyn hynny:**

**85.56%** – er bod **757** o'r **928** o adroddiadau wedi cael eu ffeilio ar amser, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar wella ein perfformiad yn y maes hwn.

**Ffeilio ein hadroddiadau ar ymholiadau diogelu ar ddyddiad ffeilio'r llys neu cyn hynny:**

**92.32%** – mae'n gyflawniad cadarnhaol iawn ond ychydig yn is na'n targed o **95%**.

Pan fydd adroddiad yn cael ei ffeilio'n hwyr, fel arfer bydd ddiwrnod yn hwyr, ond yn dal i fod mewn pryd ar gyfer y gwrandawiad llys.

**Mae'r Cynllun Braenaru yn DPA newydd ar gyfer 2023. Ffeilio ein hadroddiadau ar yr Effaith ar Blant ar ddyddiad ffeilio'r llys neu cyn hynny:**

**91.94%** – mae'r ganran hon yn is na'n targed o **95%** sy'n golygu bod **34** o'r **422** o adroddiadau wedi cael eu ffeilio'n hwyr. Mae hwn yn faes y byddwn yn parhau i'w fonitro a'i wella fel rhan o'r cynllun peilot.



# Ein Cynllun Strategol ar gyfer 2020-2025

**Mae ein Cynllun Strategol, a ddatblygwyd gyda'n staff, yn cynnig cyfeiriad a ffocws i'r hyn a wnawn a'r ffordd rydym yn ei wneud ac mae'n sicrhau bod ein rhan ni ym mywydau plant a theuluoedd yn parhau i wneud gwahaniaeth cadarnhaol.**

Mae ein strategaeth yn cynnwys tri nod cyffredinol sy'n disgrifio sut y byddwn yn canolbwyntio ein hymdrechion ar gyflawni ein pwrpas.

Mae'r nodau hyn yn canolbwyntio ar Ein Gwasanaeth, Ein Staff ac Ein Rhanddeiliaid.

- **Ein Gwasanaeth**
  Rydym am ddarparu gwasanaeth o'r safon orau er mwyn cefnogi canlyniadau gwell i bob plentyn, person ifanc a theulu rydym yn gweithio gydag ef.
- **Ein Staff**
  Rydym am gael amgylchedd a diwylliant dysgu lle mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a bod eu llesiant yn cael ei gefnogi.
- **Ein Rhanddeiliaid**
  Rydym am rannu ein gwybodaeth, dysgu gan bartneriaid a defnyddio ein dylanwad ar y cyd i wella'r system cyfiawnder teuluol a gofal cymdeithasol plant yng Nghymru.



# Ein Gwasanaeth

NOD 1

## Darparu dadansoddiad o safon uchel sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac argymhellion sydd wedi'u teilwra'n benodol i anghenion ac amgylchiadau pob plentyn a pherson ifanc.

Er i ni wynebu heriau gweithredol yn ystod y flwyddyn, mae ein hymrwymiad i fabwysiadu ffyrdd newydd o weithio a gwella'r gwasanaeth a ddarparwn wedi parhau'n flaenoriaeth.

Mae archwiliad o waith cyfraith breifat lle mae plant wedi bod yn barti yn yr achos (rheol 16.4) wedi nodi camau gweithredu y gallwn eu cymryd i wella ein hymarfer, fel na fydd plant yn ymwneud â'r llys teulu am fwy o amser nag sy'n angenrheidiol.

Mewn ymateb i ganfyddiadau'r archwiliad, gwnaethom weithio gydag ymarferwyr i ddatblygu dull newydd o ymdrin ag achosion 16.4 er mwyn cefnogi canlyniadau mwy amserol i blant. Caiff y dull gweithredu hwn ei dreialu yn 2023-24.

Er mai cyfran fach iawn o'n gwaith sy'n ymwneud â phlant y mae eu rhiant/rhieni geni wedi eu hildio i'w mabwysiadu, gwnaethom ystyried amgylchiadau'r plant hyn (rhwng 2011 a 2021) er mwyn gwella ein hymwybyddiaeth o brofiad bywyd y teuluoedd a deall yr effaith arnynt.

Bydd nodi a deall y cymhlethdodau sydd ynghlwm wrth benderfyniad y rhieni i ildio eu plentyn a datblygu canllawiau clir ar arferion gorau, yn ein helpu i lywio'r ffordd rydym yn gweithio gyda'r plant a'u teuluoedd y mae angen ein gwasanaeth arnynt.



# Ein Gwasanaeth

NOD 2

## Gwrando yn gyson ar lais y plentyn a'i hyrwyddo ym mhopeth a wnawn.

Mae cyflwyno dull newydd o gofnodi natur unigryw ac amrywiaeth y plant, y bobl ifanc a'r rhieni/gofalwyr sy'n gweithio gyda ni wedi bod yn welliant allweddol yn ystod y flwyddyn hon.

Yn dilyn cynllun peilot cychwynnol, gwnaethom fabwysiadu'r dull gweithredu hwn drwy'r sefydliad cyfan, a oedd yn cynnwys datblygu ein systemau a'n prosesau i gofnodi gwybodaeth am amrywiaeth yn effeithiol ac adolygu'r wybodaeth a roddwn er mwyn sicrhau bod pawb yn deall y rhesymau pam rydym yn gofyn am wybodaeth am amrywiaeth.

Wrth i ni barhau i ddatblygu ein cydberthynas â'r Bwrdd Pobl Ifanc Cyfiawnder Teuluol, a gan adeiladu ar brosiectau'r flwyddyn diwethaf, cynhaliwyd gweithdai er mwyn i aelodau'r bwrdd gyfarfod â'n staff cymorth busnes (drwy ddulliau rhithwir) y flwyddyn hon.

Yn aml, aelodau ein timau cymorth busnes yw'r bobl gyntaf i gysylltu â phlentyn neu berson ifanc pan fydd yn ymweld â'n swyddfeydd neu, weithiau, yr unig bobl sy'n siarad â nhw os bydd yn cysylltu â ni dros y ffôn.

Gwnaeth y sesiynau pwrpasol hyn gydag aelodau o'r Bwrdd Pobl Ifanc Cyfiawnder Teuluol a'n staff helpu pob un ohonom i ddeall y rôl hollbwysig y mae'r timau yn ei chwarae i helpu plant/pobl ifanc pan fyddant yn cysylltu â ni am y tro cyntaf.

Lansiodd y Bwrdd Pobl Ifanc Cyfiawnder Teuluol ei lyfr cyntaf eleni, sef 'In Our Shoes'. Nod y llyfr, sy'n ymgorffori nifer o brofiadau dadlennol neu gerddi gan y bobl ifanc sydd wedi cael profiad o'r system cyfiawnder teuluol eu hunain, yw ysbrydoli a thywys pawb sy'n gweithio gyda phlant a'u teuluoedd sy'n rhan o achosion yn y llysoedd teulu. Aethom ati i hyrwyddo'r llyfr drwy'r sefydliad cyfan, gan sicrhau ei fod ar gael i bawb a thynnu sylw'r staff at ddarnau sy'n berthnasol i erthyglau yn ein cylchlythyrau sefydliadol.



# Ein Gwasanaeth

## Deall a dangos y gwahaniaeth y mae ein gwasanaeth yn ei wneud i blant, pobl ifanc a theuluoedd.

Yn ystod y pandemig, daeth cyfarwyddyd ymarfer dros dro ar gyfer materion cyfraith breifat i rym. Yng Nghymru, mabwysiadodd pob ardal (ar wahan i ardal y Cynllun Peilot Braenaru yn y gogledd) y ffordd newydd hon o weithio, a oedd yn golygu nad oedd gofyn yn awtomatig i deuluoedd fod yn bresennol mewn gwrandawiad llys ar gyflwyno cais cyfraith breifat. Yn lle hynny, byddai'r llys yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â sut y dylid ymdrin â'u sefyllfa, ar ôl i'n hadroddiadau diogelu gael eu ffeilio.

Gwnaethom adolygu effaith y mesur dros dro hwn i deuluoedd yng Nghymru a daethom i'r casgliad bod y model yn gweithio'n dda i Cafcass Cymru a theuluoedd. Gwelsom fod llai o Apwyntiadau Datrys Anghydfod Gwrandawiad Cyntaf (FHDRA), sy'n golygu nad yw rhieni/gofalwyr yn mynd i wrandawiadau llys diangen.

Fel sefydliad sy'n gwrando, rydym bob amser yn croesawu adborth, p'un a yw'n codi pryder am y gwasanaeth a ddarparwn neu'n gwneud sylwadau cadarnhaol.

Y flwyddyn hon, cawsom 66 o gwynion sy'n fwy na'r flwyddyn flaenorol, pan gawsom 46 o gwynion. Fodd bynnag, gwnaethom ddatrys y mwyafrif o'r cwynion (63) ar gam cynnar, naill ai drwy ein tîm ardal/tîm cwynion ar adeg y pwynt cyswllt cyntaf, neu ar ôl i'n rheolwyr ymarfer fuddsoddi eu hamser a'u sgiliau proffesiynol i ddatrys y pryderon drwy gysylltu â phobl o fewn 5 diwrnod gwaith.


Y flwyddyn hon, dim ond tri chŵyn fu'n destun ymchwiliad ffurfiol gan Cafcass Cymru. Gwnaeth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ohebu â ni ynglŷn ag wyth cwyn (roedd dwy yn ymwneud â'r un achwynydd), ond ni chymerodd unrhyw gamau pellach mewn unrhyw un o'r achosion, sy'n dangos ein bod wedi ymateb yn briodol i'r materion a godwyd.

Cawsom 37 o sylwadau cadarnhaol ffurfiol y flwyddyn hon (o gymharu â 49 yn ystod y flwyddyn flaenorol), gan gynnwys 19 gan rieni'r plant a'r bobl ifanc roeddem wedi dod i gysylltiad â nhw yn ystod achosion llys teulu.

Er i ni gyflwyno ffyrdd gwahanol i blant a phobl ifanc roi adborth i ni, nid ydym wedi cael unrhyw adborth o'r fath yn ystod y flwyddyn diwethaf. Felly, rydym yn ceisio unioni hyn drwy gyflogi Intern PhD i arwain prosiect i gael adborth gan blant a phobl ifanc sy'n rhan o'r Cynllun Peilot Braenaru.

Mae rheoli a rhannu gwybodaeth bersonol yn ddiogel yn flaenoriaethau allweddol i ni. Bob blwyddyn, rydym yn rhannu miloedd o adroddiadau a negeseuon e-bost â chyfreithwyr, llysoedd, defnyddwyr gwasanaethau, yr heddlu ac awdurdodau lleol mewn ffordd ddiogel a phriodol. Fodd bynnag, weithiau bydd digwyddiadau data yn codi ac yn 2022-23, gwnaethom gofnodi chwe digwyddiad o'r fath. Roedd un o'r rhain yn dod o dan y gofyniad cyfreithiol i roi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ond daeth i'r casgliad na ellid cyfiawnhau camau pellach.

Rydym yn cymryd digwyddiadau diogelwch data o ddifrif ac yn ceisio dysgu oddi wrthynt, gan wella ymwybyddiaeth ymhlith y staff a gwella ein prosesau gweithredol er mwyn ceisio atal digwyddiadau o'r fath rhag codi eto, yn ogystal â threfnu i'n holl staff gwblhau hyfforddiant ar ddiogelu data yn flynyddol.



# Ein Gwasanaeth

NOD 4

## Gwella ein gwasanaeth yn barhaus drwy archwilio ffyrdd newydd o weithio.

Roedd ein hymateb i benderfyniad Llywydd yr Is-adran Teuluoedd i ail-lansio protocol yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yn cynnwys trefnu gweithdai i ymarferwyr yn ystod mis Mawrth 2023 er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r gofynion sy'n berthnasol i'r maes ymarfer hwn.

Byddwn yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys y farnwriaeth, awdurdodau lleol a'r Bwrdd Pobl Ifanc Cyfiawnder Teuluol er mwyn cyflwyno'r newidiadau sydd eu hangen i roi'r protocol ar waith yn effeithiol.

Yn 2023-24, byddwn hefyd yn cynnal archwiliad o'n gwaith er mwyn helpu i lywio ein dealltwriaeth o gyfraniad Cafcass Cymru at roi'r protocol ar waith.

Gwnaethom chwarae rôl barhaus yn y gwaith o ddatblygu pyrth Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi a'u gwella'n barhaus.

Ymhlith manteision y porth mae'r canlynol:

- Nid oes angen trosglwyddo gwybodaeth gyfrinachol o un llwyfan diogel i un arall.
- Gall ymarferwyr weld dogfennau yn gynt gan fod modd eu gweld cyn gynted ag y byddant wedi eu ffeilio/lanlwytho.
- Mae'n lleihau'r risg o golli data os caiff gwybodaeth ei throsglwyddo o'r porth i ddefnyddwyr gwasanaethau.
- Mae pob sefydliad yn bwydo data i mewn i'r un pwynt diogel.
- Gellir cael gafael ar wybodaeth ar ôl i faterion ddod i ben os bydd angen, drwy'r porth, gan gynnwys gorchmynion terfynol.

Er ein bod wedi bod yn defnyddio'r porth Cyfraith Gyhoeddus ers bron dwy flynedd, caiff y porth Cyfraith Breifat ei gyflwyno fesul cam o fis Mai 2023.



# Ein Staff

NOD 5


**Hybu iechyd a llesiant pob aelod o'r staff, er mwyn sicrhau cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith wrth gynnal gwasanaeth effeithlon ac effeithiol.**

Croesawodd Cafcass Cymru egwyddorion Gweithio'n Glyfar Llywodraeth Cymru, a'n blaenoriaeth yw diwallu ein hanghenion busnes yn effeithiol a hefyd sicrhau y gall pob cydweithiwr gael budd o'r ffordd hon o weithio.

Bydd ein hanghenion busnes yn golygu y bydd cydweithwyr yn gweithio mewn cyfuniad o leoliadau, gan gynnwys y cartref, y swyddfa, lleoliadau cymunedol, llysoedd a chartrefi teuluol a lleoliadau eraill, yn dibynnu ar eu rôl.

Gwnaeth y siarter sefydliadol, sy'n nodi'r hyn a wnawn, lywio'r broses o ddatblygu siarteri timau sy'n rhoi mwy o fanylion o ran anghenion aelodau unigol staff yn eu lleoliadau tîm.

Rydym hefyd yn parhau i hyrwyddo ein Sianel Teams benodol sy'n sicrhau bod pob aelod o'r staff yn gallu cael gafael ar nifer o awgrymiadau, cyrsiau a gweminarau, yn ogystal â dolenni i'r adnoddau a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn fwy cyffredinol, er enghraifft, Iechyd, Diogelwch a Llesiant, Dydd Gŵyl Dewi – Gwna'r Pethau Bychain a Paratoi ar gyfer y Menopos.





# Ein Staff

NOD 6

## Buddsoddi mewn dysgu parhaus, gan helpu i ysbrydoli ac ysgogi staff i ddatblygu yn eu swyddi.

Mae ein holl ymarferwyr yn weithwyr cymdeithasol gofal plant cymwysedig a phrofiadol sy'n ymrwymedig i wella bywydau'r plant y maent yn gweithio gyda nhw. Fel rhan o'n hymrwymiad parhaus iddynt, ac yn unol â'n rhaglen dysgu a datblygu barhaus, darparwyd nifer o ddigwyddiadau hyfforddiant newydd a diweddaru gennym.

Mae'r digwyddiadau yn gymysgedd o weminarau, podlediadau, gweithdai wyneb yn wyneb neu o bell a sesiynau sy'n hygyrch ar-lein.

Er bod llawer o'n digwyddiadau hyfforddiant wedi'u targedu at ymarferwyr y mae dysgu a datblygu parhaus yn rhan orfodol o'u cofrestriad gwaith cymdeithasol, mae'r sesiynau yn agored i bob aelod o staff Cafcass Cymru.

Hefyd yn ystod y cyfnod hwn, sefydlwyd swydd Pennaeth Ymarfer a fydd yn arwain gwaith datblygu a gwella ymarfer drwy'r sefydliad cyfan.



# Ein Staff



## Recriwtio, cadw a buddsoddi mewn gweithlu hyfedr, brwdfrydig ac amrywiol.

Newidiwyd geiriad ein hysbysebion swydd er mwyn adlewyrchu ein hymrwymiad i ddod yn sefydliad sy'n fwyfwy amrywiol. O ganlyniad i hynny, rydym wedi croesawu mwy o staff â phrofiad bywyd, neu brofiad proffesiynol amrywiol.

Yn wyneb yr her genedlaethol o ran recriwtio gweithwyr cymdeithasol cymwysedig, sefydlwyd swydd Gweithiwr Cymdeithasol Llys Teulu dan hyfforddiant. Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn gweithio gyda Cafcass Cymru tra byddant yn ennill cymhwyster proffesiynol ym maes gwaith cymdeithasol ac unwaith y byddant wedi cymhwyso, byddant yn ymuno â'n tîm o ymarferwyr gwaith cymdeithasol.

Mae nifer y staff sy'n rhan o'n grwpiau o hyrwyddwyr Amrywiaeth a Chynhwysiant yn parhau i dyfu ac maent yn cynnwys staff cymorth busnes yn ogystal ag ymarferwyr. Mae dau grŵp ar hyn o bryd: *Ethnigrwydd, Crefydd a Diwylliant, a Niwroamrywiaeth ac Anabledd.*

Mae hybu'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob un o'n meysydd gwaith yn parhau i fod yn un o'n nodau, ac yn unol â Safonau'r Gymraeg, rydym yn cynnal dadansoddiad blynyddol o sgiliau'r staff.



# Ein Rhanddeiliaid

NOD 8

## Gwella a chryfhau ein cysylltiadau â rhanddeiliaid.

Er mwyn bod yn sefydliad blaengar sy'n gwrando, rydym yn edrych yn barhaus ar yr hyn y gallwn ei wneud yn well, yn ogystal â sut y gall ein rhanddeiliaid roi mwy o gymorth i ni.

Y flwyddyn hon, gwnaethom ymateb i adborth gan ein cydweithwyr mewn awdurdodau lleol ar ein hymwneud pan fydd y llys teulu yn gorchymyn iddynt baratoi adroddiadau Adran 37. Caiff adroddiadau Adran 37 eu paratoi gan awdurdodau lleol yn dilyn eu hymchwiliadau i les plentyn, a all arwain at geisio gorchymyn gofal neu orchymyn goruchwylio. Mewn ymateb i'w hadborth, mabwysiadwyd dull gweithredu newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i'n hymarferwyr gydgysylltu â'r awdurdod lleol perthnasol cyn argymell i'r llys teulu y dylid gorchymyn i adroddiad Adran 37 gael ei baratoi.

Daeth Comisiynydd Plant Cymru, Rocio Cifuentes, i'n cynhadledd i'r staff cyfan ym mis Hydref 2022 a rhoddodd drosolwg o'i rôl a'i blaenoriaethau yn ystod ei chyfnod yn y swydd. Yna, cyfarfu â'n hymarferwyr ar gyfer sesiwn holi ac ateb ym mis Mawrth.

Ymunodd dros o 80 o aelodau o'r staff â'r sesiwn, lle y trafodwyd amrywiaeth o faterion, gan gynnwys:

- Lleoliadau diogel.
- Cymorth iechyd meddwl i blant.
- Amrywiaeth a chydraddoldeb.
- Teuluoedd sy'n gwahanu o dan gyfraith breifat.
- Effaith pandemig COVID-19.



# Ein Rhanddeiliaid

## Parhau i wella ein systemau ar gyfer casglu gwybodaeth, adrodd arni a'i dadansoddi.

Mae sicrhau bod ein data mor gywir â phosibl yn hollbwysig, nid yn unig i ni, ond hefyd i'n rhanddeiliaid y mae angen iddynt fod yn hyderus bod y wybodaeth rydym yn ei darparu yn gywir.

Ers mis Ionawr 2023, mae'r rheolwyr Digidol a Phrosesau Busnes ac Ymgysylltu wedi cyfarfod bob wythnos i gyfnewid gwybodaeth am heriau sy'n gysylltiedig â data, newidiadau mewn prosesau a gwelliannau arfaethedig i dechnoleg, ymarfer, neu brosesau.

Mae'r cydweithrediad hwn rhwng timau wedi arwain at nifer o fentrau glanhau data, sy'n golygu bod data mwy cywir ar gael.

Ymhlith manteision eraill y cyfarfodydd rheolaidd hyn mae'r gallu i nodi ar gam cynnar unrhyw broblemau o ran y ffordd rydym yn casglu data, nodi gwelliannau i'r system, staff newydd ac anghenion hyfforddiant diweddaru, a datblygu prosesau mwy clyfar a symlach.



# Ein Rhanddeiliaid

NOD 10


**Chwarae rhan arweiniol trwy rannu ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth mewn modd priodol gyda rhanddeiliaid i gefnogi gwelliannau o fewn y system cyfiawnder teulu a gofal cymdeithasol.**

Cyhoeddodd Prifysgol Bryste ei hymchwil i'r Gorchmynion Rhyddhau Gofal eleni. Edrychodd eu hymchwil, ag ariannwyd gan Sefydliad Nuffield, ar ddata a rannwyd ar draws nifer o sefydliadau, gan gynnwys Cafcass Cymru.

Ymhlith canfyddiadau allweddol yr astudiaeth fanwl hon mae'r canlynol:

- Bu cynnydd sylweddol yn nifer y ceisiadau a wnaed rhwng 2010 a 2019.
- Gwnaed tua 60 i 70% o'r ceisiadau gan awdurdodau lleol.
- Gwnaed y ceisiadau a oedd yn weddill gan rieni, gydag un cais yn unig yn sampl yr astudiaeth wedi'i wneud gan blentyn.
- O blith y sampl, roedd 61% o'r ceisiadau ar gyfer plant a oedd yn byw gyda rhiant ac roedd 39% yn ymwneud â gorchmynion gwarcheidwaeth arbennig i'r gofalwyr presennol, yr oedd y rhan fwyaf ohonynt yn perthyn i'r plentyn.

Yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, byddwn yn ystyried y canfyddiadau hyn, ynghyd ag effaith y newidiadau i ymarfer o ganlyniad i benderfyniad Llywydd yr Is-adran Teuluoedd i ail-lansio'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus, ar ein rôl a'n cyfrifoldebau i wella canlyniadau i blant sy'n rhan o achosion llys teulu.



# Edrych i'r dyfodol

## Ein Gwasanaeth

Yn dilyn yr adborth a gafwyd drwy wiriad sicrwydd Arolygiaeth Gofal Cymru, rydym wedi parhau i wella ein prosesau dyrannu a chynllunio achosion a'r ffordd rydym yn cofnodi ein dulliau o ymgysylltu â phlant a'u teuluoedd. Yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, byddwn yn cyflwyno'r gwelliannau hyn ac yn eu rhoi ar waith.

Gwnaethom hefyd ystyried sylwadau ynglŷn â manteision sicrhau bod gwybodaeth am Cafcass Cymru yn cael ei dosbarthu i deuluoedd (plant ac oedolion) ar ddechrau achos mewn ffordd gyson.

Rydym yn gwneud hyn drwy adolygu ein holl wybodaeth gynnar a chydweithio â staff Cafcass yn Lloegr a Gwasanaethau Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi er mwyn gwella ansawdd a hygyrchedd ein gwybodaeth.

Mae sicrhau bod teuluoedd, yn enwedig plant a phobl ifanc, yn cael gwybod am ganlyniad unrhyw achos llys y maent yn rhan ohono, hefyd yn flaenoriaeth i ni yn y flwyddyn sydd i ddod.

## Ein Staff

Nododd adborth gan staff ym mhob un o feysydd ein sefydliad y byddai gwelliannau pellach i'r trefniadau dysgu a datblygu ar gyfer timau nad ydynt yn cynnwys ymarferwyr (h.y. staff Cymorth Busnes neu Gymorth Canolog), yn fuddiol.

Mewn ymateb i hynny, mae ein tîm dysgu a datblygu yn gweithio ar gyflwyno hyfforddiant perthnasol i'r grŵp hwn o staff ac mae hefyd yn parhau i nodi, trefnu a chydlynu'r hyfforddiant arbenigol sydd ei angen ar ein hymarferwyr ac sydd hefyd yn gysylltiedig â'u cofrestriad gwaith cymdeithasol.

Mae ein hymrwymiad datganedig i helpu pob aelod o'n staff i weithio'n fwy hyblyg, gan helpu i hyrwyddo cydbwysedd iachach rhwng bywyd a gwaith mewn llawer o achosion, wedi'i amlinellu'n glir yn ein Siarter Sefydliadol.


## Ein Rhanddeiliaid

Byddwn yn parhau i ymgymryd â'n rôl i wella canlyniadau i blant drwy ein hymrwymiad i gydweithio â'n rhanddeiliaid; rhannu gwybodaeth; llunio gwasanaethau newydd; a myfyrio ar y ffordd y gall ein hymarfer ddatblygu i gefnogi'r broses o ddiwygio a gwella pob un o feysydd y system cyfiawnder teuluol yng Nghymru.

Ar ddiwedd mis Ionawr 2023, lansiwyd Cynllun Peilot Adrodd y Grŵp Gweithredu Tryloywder yng Nghaerdydd, Leeds, a Chaerliwelydd.

Nod y cynllun peilot yw cyflwyno rhagdybiaeth y gall cyfryngau a blogwyr cyfreithiol sydd wedi'u hachredu gyhoeddi adroddiadau ar yr hyn y maent yn ei weld ac yn ei glywed yn ystod achosion llys teulu, yn amodol ar reolau cyfrinachedd llym.

Byddwn yn ystyried sut mae'r cynllun peilot hwn yn effeithio ar y plant a'r teuluoedd sy'n destun 'Gorchmynion Tryloywder' sy'n caniatáu adrodd yn ddiogel ar faterion a wrandewir yn y llys teulu yng Nghaerdydd.



# Rhestr Termau

## Adran 31 o Ddeddf Plant 1989

Mae'n caniatáu i'r llys wneud gorchymyn gofal neu orchymyn goruchwylio ar gyfer plentyn ar gais awdurdod lleol.

## Adroddiad Adran 37

Adroddiad sy'n cael ei baratoi gan yr awdurdod lleol (Gwasanaethau Cymdeithasol) ac sy'n cael ei gyfarwyddo gan y Llys pan fydd yn ymddangos i'r Llys y gall fod yn briodol i orchymyn gofal neu orchymyn goruchwylio gael ei wneud mewn perthynas â phlentyn.

## Apwyntiadau Datrys Anghydfod Gwrandawiad Cyntaf (FHDRA)

Fel arfer y gwrandawiad cyntaf yng cyfraith breifat mewn achos o dan Ddeddf Plant 1989. Diben FHDRA yw asesu'r materion rhwng y partïon ar gam cynnar, a phenderfynu ar y ffordd orau o fwrw ymlaen â'r achos.

## Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

Sefydliad sy'n gyfrifol am arolygu gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol ledled Cymru er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau yn rhoi gwasanaeth o'r safon uchaf i blant a theuluoedd yng Nghymru.

## Cyfarwyddyd Ymarfer

O dan gyfraith y DU, ystyr cyfarwyddyd ymarfer yw protocol atodol i reolau trefniadaeth sifil a throseddol yn y llysoedd – "a device to regulate minor procedural matters" – ac "an official announcement by the court laying down rules as to how it should function."

## Cynllun Peilot Tryloywder

O 30 Ionawr 2023, am gyfnod o 12 mis, bydd y cyfryngau neu'r blogwyr cyfreithiol sy'n mynd i wrandawiadau'r llys teulu mewn tri llys (Caerdydd, Caerliwelydd neu Leeds), yn gallu ysgrifennu am yr achos, yn amodol ar orchymyn tryloywder caeth iawn a fydd yn sicrhau na fydd neb yn gallu adnabod plant.

## Llysoedd Braenaru

Dull cwbl wahanol o ymdrin ag achosion cyfraith breifat. Ei nod, yn anad dim, yw ceisio hyrwyddo dull 'diogelwch yn gyntaf', sy'n golygu y bydd yr achosion hynny lle mae angen cymorth y llys yn ei gael i'w harwain drwy argyfyngau a lleihau gwrthdaro.

## Rheol 16.4

Os bydd y Llys teuluol yn penderfynyn i gwneud eich plentyn/plant parti ir achos, bydd y Llys yn gorchymyn gwarcheidwad plant i'w cynrychioli. Mae Cyfarwyddyd Ymarfer 16A a Rheol 16.4 or Rheolau Gweithdrefnau Teulu yn nodi rheolau'r llys ynghylch penodi gwarcheidwaid plant a'u rôl.

## Safonau'r Gymraeg

Set o ofynion cyfrwymol yn gyfreithiol sy'n gymwys i Lywodraeth Cymru. Maent yn nodi ein cyfrifoldebau am ddarparu gwasanaethau dwyieithog rhagorol.

## Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Mae'n cynnal hawliau gwybodaeth er budd y cyhoedd, gan annog cyrff cyhoeddus i fod yn agored a hyrwyddo preifatrwydd data i unigolion. Mae'n gorff cyhoeddus anadrannol gweithredol a noddir gan yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesedd a Thechnoleg.

## System Cyfiawnder Teuluol

Mae'n bodoli er mwyn helpu teuluoedd i ddatrys anghydfodau sy'n codi o ran materion teuluol yn gyflym a gyda chyn lleied o darfu ar y rhai dan sylw.

